## Croeso i Wrecsam

Mae Partneriaeth Strategaeth Cymuned Wrecsam yn ymroddedig i weithio ar y cyd i sicrhau fod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dref heddychlon a chytûn ble mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu byw bywydau iach a bodlon; ble ceir perthynas gref a chadarnhaol rhwng pobl mewn gwahanol gymunedau, yn y cartref, yn yr ysgol, ac yn y gweithle. Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma ewch i www.onewrexham@wrexham.gov.uk

Gobeithio y bydd hyn o fudd i chi ac yn ateb rhai o'ch cwestiynau am fyw a gweithio yma yn Wrecsam.

Mae Partneriaeth Strategaeth Cymuned Wrecsam yn cynnwys y cyrff canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru [NEWI]
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam [AVOW]
- Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam
- Heddlu Gogledd Cymru
- Coleg Iâl Wrecsam
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
- Siambr Fasnach - Caer, Ellesmere Port a Gogledd Cymru

Hoffai'r Bartneriaeth Strategaeth Cymuned ddiolch i'r holl gyrff gwirfoddol a statudol a gynorthwyodd i ddatblygu'r llyfryn yma – maent yn ddiolchgar iawn iddynt.

Yn Adran 1 ceir gwybodaeth gyffredinol am gyrff sy'n gallu helpu trwy roi gwybodaeth a chyngor am ddim. Mae adrannau eraill y llyfryn wedi cael eu rhannu yn feysydd pwnc er hwylustod.

Pe hoffech wneud sylwadau am y llyfryn neu gael copïau ychwanegol, ysgrifennwch at:

**Un Wrecsam**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Neu

Rhif Ffôn: 01978 292000
Minicom: 01978 292067
Ebost: onewrexham@wrexham.gov.uk mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk